**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

19 Chwefror 2024

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr 2023 ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei ymchwiliad i ganser gynaecolegol ac am amgáu'r adroddiad: *Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol*.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith ymchwil i ofal a phrofiad menywod sy'n cael diagnosis o ganser gynaecolegol ac rwy'n ymddiheuro am yr oedi bach wrth ymateb.

Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y mater pwysig hwn ac yn ddiolchgar o gael eich adroddiad terfynol. Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed ac yn amgáu fy ymateb manwl isod.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad Ymchwiliad Rhagfyr 2023 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ganser Gynaecolegol: “Heb lais: Taith menywod drwy ganser gynaecolegol”**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn gan y Pwyllgor wrth i ni gydnabod pwysigrwydd rhoi llais i fenywod sy'n ymgyflwyno i'r GIG â phryderon am ganser gynaecolegol. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'r GIG yn ymateb i bryderon menywod a bod pobl yn cael eu cyfeirio'n briodol er mwyn cael ymchwiliad cyflym i'w symptomau. Fel y cadarnhaodd y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, nid yw hyn bob amser yn wir ac mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Wrth wneud hynny, mae'n bwysig cydnabod bod y mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n derbyn gofal canser gynaecolegol yn adrodd lefelau uchel o fodlonrwydd cleifion â gwasanaethau'r GIG yn gyson. Gwelir hyn ym mhob un o'r tri arolwg cenedlaethol ar brofiad cleifion canser a gynhaliwyd dros y degawd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru o safbwynt polisi, a'r GIG o safbwynt darparu gwasanaethau, yn ystyried beth arall sydd angen ei wneud i sicrhau bod pob claf yn derbyn gofal o'r radd flaenaf o gychwyn ei siwrnai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau a chanlyniadau canser. Mae canser wedi bod yn flaenoriaeth gyson uchel i'r Llywodraeth a'r GIG yng Nghymru, fel yr adlewyrchir gan y gyfres o strategaethau, cynlluniau a pholisïau cenedlaethol a gyflwynwyd ers 2006. Mae dull polisi cyfredol Llywodraeth Cymru wedi'i nodi yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser 2021 a'i fwriad yw llywio gwaith cynllunio gwasanaethau canser byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn unol â chyfres o lwybrau clinigol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, a bod Gweithrediaeth y GIG yn defnyddio data i oruchwylio’n rheolaidd gysondeb y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Deallwn fod yn rhaid i berfformiad canser gynaecolegol wella a bydd agweddau ar y polisi hwn, a Chynllun Gwella Canser y GIG, yn helpu i wella profiad gofal menywod â chanserau gynaecolegol. Yn aml bwriedir i'r ymdrechion hyn fod o fudd i sawl math o ganser, megis Canolfannau Diagnostig Cyflym a chymorth addysgol i feddygon teulu. Mae rhai camau gweithredu yn fwy penodol i ganser gynaecolegol, fel y rhaglen ar gyfer adfer amseroedd aros canser sy'n cael ei chyflwyno gan Weithrediaeth y GIG, gan ganolbwyntio ar dri math o ganser, yn cynnwys canser gynaecolegol, i gydnabod y perfformiad amseroedd aros diweddar.

Mae'r holl waith hwn yn cael ei wneud yn wyneb yr holl heriau ariannol difrifol sy'n wynebu'r GIG, cynnydd hirdymor yn y galw am ofal canser a gofal heb fod yn ganser, law yn llaw â gorfod adfer o effaith sylweddol y pandemig; yn enwedig o ran rhestrau aros hirach. Mae'r fframwaith cynllunio cenedlaethol a gyhoeddwyd i'r GIG yn mynnu bod blaenoriaeth ddiymwad yn cael ei rhoi i ddatblygu gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd ar gael i'r GIG.

Mewn ymateb i'r argymhellion penodol a wnaed:

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff proffesiynol iechyd perthnasol a'r byrddau iechyd i hyrwyddo sensitifrwydd o ran rhywedd a chymhwysedd diwylliannol ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dylai'r model 'gofal yn seiliedig ar berthynas' hwn gynnwys sicrhau bod digon o amser ar gyfer apwyntiadau i fynd i'r afael yn drylwyr â phryderon cleifion, ac annog cyfathrebu empathig rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gydnabod anghenion a phrofiadau iechyd unigryw menywod.**

Ymateb: Derbyn

Bydd hyn yn ganolbwynt allweddol i Gynllun Iechyd Menywod y GIG. Mae adroddiad Darganfod, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, yn nodi chwe maes cyfle i wella sy'n flaenoriaeth, gan gynnwys yr angen i nodi ac ymgorffori technegau ac ymddygiadau sy'n sicrhau bod lleisiau menywod a merched yn cael eu clywed ym mhob ymwneud â'r GIG.

Goblygiadau ariannol: dim, wedi'i gynnwys yn y cyllid ar gyfer y Rhwydweithiau Clinigol Strategol.

**Argymhelliad 2: Dylai Cynllun Iechyd Menywod Cymru gael ei gwblhau a'i gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn, a dylai Llywodraeth Cymru gefnogi GIG Cymru i wneud hyn. Dylai'r cynllun gynnwys ffocws penodol ar ganserau gynaecolegol, gan helpu i wella anghydraddoldebau iechyd menywod drwy godi ymwybyddiaeth o'r materion, gwella mynediad at ofal iechyd a gwella canlyniadau canser i fenywod sy'n cael diagnosis o ganser gynaecolegol.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Cynllun Iechyd Menywod yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y Cynllun yn helpu i wella anghydraddoldebau iechyd menywod drwy godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud ag iechyd menywod a gwella mynediad at ofal. Fodd bynnag, mae bwriadau a chamau polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud yn benodol â chanser gynaecolegol eisoes wedi'u nodi ar gyfer y GIG yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser ac mae ymateb y GIG wedi'i ddisgrifio yn y Cynllun Gwella Canser.

Goblygiadau ariannol: dim, wedi'i gynnwys yn y cyllid ar gyfer y Rhwydweithiau Clinigol Strategol.

**Argymhelliad 3: Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y canlynol:**

- **y gyllideb ymchwil gysylltiedig i gefnogi'r cynllun iechyd menywod, a**
- **beth fydd y blaenoriaethau ymchwil, gan gynnwys a fydd cyllid penodol ar gyfer gwaith ymchwil canser gynaecolegol**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Roedd yr Adroddiad Darganfod yn pwysleisio'r angen am ymchwil ansoddol a dulliau cymysg ar bynciau allweddol sy'n cefnogi anghenion menywod a merched. Amlygwyd meysydd lle'r oedd angen mwy o dystiolaeth ymchwil ar eu cyfer hefyd.

Bydd y Rhwydwaith Iechyd Menywod yn mireinio ymhellach yr anghenion ymchwil sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun Iechyd Menywod. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu opsiynau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer ymchwil ar faterion iechyd menywod dros y blynyddoedd nesaf. Ni fydd yr opsiynau hyn yn cynnwys cyllid penodol ar gyfer ymchwil i ganser gynaecolegol oherwydd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno ac ariannu dull cenedlaethol o ymdrin ag ymchwil canser fel rhan o Strategaeth Ymchwil Canser Cymru.

Goblygiadau ariannol: Bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r broses o nodi'r opsiynau.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod asesiad yn cael ei wneud o wasanaethau sy'n gysylltiedig â chanser gynaecolegol a gollwyd yn ystod y pandemig COVID-19, a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu hailsefydlu fel mater o frys. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru:**

- **adrodd yn ôl ar yr amseroedd ar gyfer ailsefydlu'r gwasanaethau hynny a**
- **lle nad yw gwasanaethau'n cael eu hailsefydlu, rhoi esboniad am hyn.**

Ymateb: Gwrthod

Bwriad y polisi yw trawsnewid sut mae llwybrau a chlinigau yn cael eu trefnu a'u cyflwyno i fodloni targed amseroedd aros canser i bobl â chanserau gynaecolegol. Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio i'r llwybr amheuaeth o ganser ar gyfer canserau gynaecolegol wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2020. Erbyn 2023, roedd y nifer cyfartalog o bobl a atgyfeiriwyd o ganlyniad i amheuaeth o ganser gynaecolegol bob mis 50% yn uwch nag yn 2020. Mae hyn, ynghyd â chymhlethdod cynyddol darparu gwasanaethau, a chapasiti cyfyngedig y model gwasanaeth cyfredol sydd ar waith, yn golygu nad ydym am weld y gwasanaeth clinigol a oedd gennym cyn y pandemig yn cael ei ailgyflwyno. Y bwriad wrth wraidd cyflwyniad y llwybrau optimaidd cenedlaethol gan Weithrediaeth y GIG, wedi'u hategu gan raglen adfer amseroedd aros canser, yw newid sut mae llwybrau a'r model gwasanaeth dan sylw yn cael eu darparu.

Goblygiadau ariannol: dim, rydym yn gwrthod yr argymhelliad.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu set o amcanion a thargedau clir a mesuradwy ar gyfer Gweithrediaeth y GIG mewn perthynas â gwella canlyniadau canser gynaecolegol, gan nodi sut y maent yn cyd-fynd â gwaith Rhwydwaith Canser Cymru a blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser. Dylai wneud hyn ar adeg ymateb i'r adroddiad hwn.**

Ymateb: Derbyn

Bydd gwella canlyniadau canser yn digwydd o ganlyniad i ffactorau amrywiol, gan gynnwys ffactorau poblogaeth a mynediad at ofal canser y GIG. Nid oes gan Weithrediaeth y GIG y cyfrifoldeb na'r gallu i wella canlyniadau canser ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, bydd Gweithrediaeth y GIG yn cefnogi'r GIG i wella canlyniadau trwy gynllunio a darparu eu gwasanaethau yn lleol. Bydd yn nodi sut y dylid cynllunio a darparu gwasanaethau mewn llwybrau gofal cenedlaethol. Bydd yn coladu, yn

adolygu ac yn defnyddio data ar ddarpariaeth gofal er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddwyn y GIG i gyfrif am wella gwasanaethau canser. Hefyd, bydd yn llywio rhaglen genedlaethol ar gyfer adfer amseroedd aros canser gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gyfer y canserau hynny sydd â'r perfformiad mwyaf heriol o ran amseroedd aros. Bydd hyn yn cynnwys gweddnewid gwasanaethau clinigol a llwybrau i wella amseroedd aros ar gyfer canser gynaecolegol a phob canser arall. Mae cerrig milltir y rhaglen yn dal i gael eu datblygu, a byddaf yn ysgrifennu diweddariad i'r Pwyllgor pan fyddant wedi derbyn sêl bendith.

Goblygiadau ariannol: dim, bydd y rhaglen a ariennir yn cynnwys datblygu’r cerrig milltir.

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi byrddau iechyd i wneud y mwyaf o fanteision gweithio rhanbarthol, yn benodol i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu gwasanaethau oherwydd anghydnawsedd systemau TGCh. Dylai wneud hyn ar adeg ymateb i'r adroddiad hwn.**

Ymateb: Derbyn

Mae gwasanaethau canser eisoes wedi'u rhanbartholi’n helaeth, gan gynnwys ar gyfer triniaeth canser gynaecolegol a rheolaeth amlddisgyblaethol. Y gwaith cychwynnol o reoli cleifion allanol ac ymchwiliadau sy'n tueddu i gael eu darparu'n lleol, yn ogystal â gofal lliniarol anarbenigol ac unrhyw gymorth ôl-driniaeth. Mae timau amlddisgyblaeth rhanbarthol yn cydlynu'r rhyngweithio rhwng timau clinigol gwahanol, ac mae gweithiwr allweddol enwebedig sy’n cydlynu'r gofal yn cynorthwyo’r claf. Er mwyn helpu i integreiddio gofal rhwng sefydliadau a thimau clinigol, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £12 miliwn i gyflwyno datrysiad gwybodaeth canser newydd i Gymru. Mae hwn yn cyflwyno cyfres o fathau newydd o gofnodion clinigol y gall unrhyw glinigydd eu gweld ar Borth Clinigol Cymru. Mae'r cofnodion digidol safonedig newydd sydd ar gael i'w defnyddio ar draws lleoliadau clinigol yn cynnwys nodyn oncoleg claf allanol, nodyn oncoleg claf mewnol, crynodeb o driniaeth radiotherapi, crynodeb o driniaeth gwrth-ganser systemig, yn ogystal â chofnod o gyfarfodydd amlddisgyblaethol. Mae gweithdrefnau ac adroddiadau diagnostig y claf eisoes ar gael drwy Borth Clinigol Cymru ynghyd â'r cofnodion newydd hyn. Hefyd, darparwyd cyllid i Ganolfan Ganser y De-ddwyrain i symud o system ddigidol 'seilo' o drefnu gofal cleifion (CaNISC) i system integredig o weinyddu cleifion Cymru (WPAS). Mae’r system wedi'i hintegreiddio â system rheoli cleifion unigryw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae datblygu'r swyddogaeth newydd hon yn caniatáu i Gymru ddarparu data gwell i'r archwiliad clinigol cenedlaethol o ganser yr ofarïau. Rydym yn rhoi ystyriaeth bellach i fuddsoddiad ychwanegol mewn gwybodeg canser i gwblhau, gwella ac integreiddio'r cofnod clinigol canser gyda systemau clinigol cenedlaethol ychwanegol.

Goblygiadau ariannol: Mae'r achos buddsoddi digidol sy'n cael ei ystyried wedi ei gostio i fod yn £2.6 miliwn yn ystod 2024-25.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad o’r Clinigau Diagnosis Cyflym i optimeiddio eu perfformiad a sicrhau eu bod yn cyfrannu’n effeithiol at ganfod canser yn gynnar. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod cleifion yn cael mynediad cyfartal at Glinigau Diagnosis Cyflym ar draws gwahanol**

**rannau o Gymru, yn enwedig ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Dylai adrodd yn ôl inni gyda chanfyddiadau'r gwerthusiad o fewn 18 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Ymateb: Derbyn

Mae Rhwydwaith Canser Cymru Gweithrediaeth y GIG yn cynnal gwerthusiad o'r Canolfannau Diagnostig Cyflym, a bydd yr adroddiad yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn adnoddau'r rhaglen bresennol.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru:**

- **weithio gyda GIG Cymru i gyrraedd targed Sefydliad Iechyd y Byd o 90 y cant yn derbyn y brechlyn HPV**; **ac**
- **erbyn diwedd tymor y Senedd hon, adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyrraedd targedau 2030 Sefydliad Iechyd y Byd o ran brechu, sgrinio a thrin ar gyfer canser serfigol. Ac fel rhan o hyn, cynnwys data ar nifer yr achosion o ganser serfigol ymhlith menywod yng Nghymru a sut mae hyn wedi newid yn ystod y Senedd hon.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Ar gyfer derbyn y brechlyn HPV yng Nghymru, mae yna eisoes darged o 90% yn derbyn y brechlyn sy'n berthnasol i fechgyn a merched. Cafodd y targed hwn ei gyfleu i'r GIG yng Nghymru yn ddiweddar drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2023/16. Dylai byrddau iechyd sicrhau bod 90% yn derbyn y brechlyn erbyn i unigolion droi'n 15 oed. Adlewyrchir y safon dderbyn hon hefyd yn fframwaith perfformiad GIG Cymru ac mae'r nifer sy'n derbyn y brechlyn HPV yn cael eu hadrodd yn chwarterol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn yr un modd, mae yna safon cyrhaeddiad o 80% eisoes ar gyfer sgrinio serfigol. Mae tua 70% yn derbyn y cynnig pan gânt wahoddiad ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i wella'r niferoedd hyn. Mae'r targed ar gyfer triniaeth canser serfigol wedi'i amlinellu yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser, sy'n nodi y dylai o leiaf 75% o bobl ddechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i amau achos. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rheolaidd gyda byrddau iechyd i gyflawni'r targedau hyn ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn adrodd ar ddigwydded canser serfigol. Rwy'n hapus i ddarparu datganiad ysgrifenedig ar gynnydd ar ddiwedd tymor y Senedd.

Goblygiadau ariannol: Ni ellir mesur cost cyflawni'r targedau hyn.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu ei strategaeth tegwch er mwyn:**

- **sicrhau bod pawb sy'n gymwys ar gyfer sgrinio serfigol yn cael y cyfle i fanteisio ar eu cynnig;** a
- **chymryd camau sydd wedi'u targedu'n well i fynd i'r afael yn benodol â'r grwpiau hynny o fenywod lle mae'n hysbys bod y nifer sy'n manteisio ar y sgrinio'n isel.**

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wella'r nifer sy'n derbyn profion sgrinio serfigol drwy nodi'r ffactorau sy'n galluogi a rhwystro mynediad. Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu grŵp a fydd yn canolbwyntio ar fanteisio ar y gwasanaeth sgrinio a thegwch o fewn y rhaglen sgrinio.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau presennol.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, amlinellu pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod GIG Cymru yn barod i roi'r broses hunan-samplu ar waith yn gyflym, os caiff ei chymeradwyo. Dylai hyn gynnwys manylion am unrhyw broses ailgyfeirio adnoddau a allai fod yn angenrheidiol.**

Ymateb: Derbyn

Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gweithio gyda rhaglenni sgrinio eraill y DU er mwyn cynnal gwerthusiad mewnol o hunan-samplu o fewn sgrinio serfigol. Bydd hyn yn galluogi'r rhaglen i ddeall a gwerthuso hunan-samplu yng nghyd-destun rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar boblogaeth. Fel rhan o'r gwerthusiad, bydd llwybrau yn cael eu datblygu i gynnig hunan-samplu diogel ac effeithiol. Ni fydd hunan-samplu yn cael ei weithredu oni bai y caiff ei argymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a bydd y gwerthusiad mewnol yn helpu i lywio argymhelliad y Pwyllgor.

Goblygiadau ariannol: dim, bydd y gwerthusiad mewnol yn helpu i lywio pa adnoddau sydd eu hangen i weithredu hunan-samplu os caiff ei argymell.

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, gynghori sut y mae'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir mewn apwyntiadau sgrinio serfigol yn ei gwneud yn glir nad yw sgrinio o'r fath yn profi nac yn sgrinio am ganserau gynaecolegol eraill, a dylid cynnwys gwybodaeth am symptomau canserau gynaecolegol eraill. Dylid darparu'r wybodaeth hon hefyd pan fydd menywod yn mynychu eu hapwyntiad sgrinio'r fron.**

Ymateb: Derbyn

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn diwygio'r wybodaeth i gleifion am sgrinio serfigol i esbonio nad yw'n profi am fathau eraill o ganserau gynaecolegol. Mae'r wybodaeth i'r cyhoedd eisoes yn cyfeirio at symptomau canser serfigol a'r angen i berson gael cyngor gan feddyg teulu os yw'n sylwi ar y symptomau hyn. Pan fydd menywod yn dod i'w hapwyntiadau sgrinio'r fron neu sgrinio serfigol, bydd y dull 'pob cyswllt yn cyfrif' yn cael ei ddatblygu gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod ymyriadau ymddygiad seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu defnyddio i sicrhau bod menywod yn deall nad yw sgrinio serfigol yn profi am fathau eraill o ganserau gynaecolegol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried darparu gwybodaeth ehangach yn effeithiol a rhoi manylion cyswllt ar gyfer llefydd i fynd i gael cymorth ar faterion iechyd menywod, gan gynnwys clinigau menopos a llawr y pelfis, sydd eisoes ar gael mewn rhai byrddau iechyd. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyngor ar ba wybodaeth y dylid ei darparu i roi'r budd mwyaf a lleihau anghydraddoldeb.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau presennol.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydliadau ac arweinwyr cymunedol i ddatblygu a gweithredu cyfres o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o symptomau canser gynaecolegol. Dylai'r ymgyrchoedd hyn:**

- **gael eu cynnal yn rheolaidd, a dylent annog menywod i geisio sylw meddygol yn syth os byddant yn profi unrhyw symptomau;**
- **gynnwys neges glir i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd wrth hyrwyddo dewisiadau iachach o ran ffordd o fyw a'r manteision personol sy'n gysylltiedig â'r dewisiadau hyn;**
- **gynnwys ystyriaeth o ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol a thargedu poblogaethau a chymunedau penodol sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan anghydraddoldebau iechyd.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n rheolaidd gyda phartneriaid trydydd sector a chyrff y GIG i hybu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o ganser. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gydag elusennau canser i hyrwyddo eu gwybodaeth ymwybyddiaeth symptomau ar gyfer canserau gynaecolegol. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei hyrwyddo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda sefydliadau lleol i hyrwyddo manteision dewisiadau iach ar gyfer ffordd o fyw ac mae'r gwaith hwn eisoes yn ystyried yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Os yw cyllid yn caniatáu, bydd ymgyrchoedd yn cael eu targedu'n ofalus a phrofwyd bod hyn yn fwy effeithiol nag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus eang.

Goblygiadau ariannol: o fewn yr adnoddau presennol.

**Argymhelliad 13. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am unrhyw gynlluniau sydd ganddi i werthuso'r adnodd cymorth gyda phenderfyniadau, 'GatewayC', i weld pa effaith y mae'n ei gael ar gyfraddau atgyfeirio meddygon teulu.**

Ymateb: Derbyn

Adnodd addysg broffesiynol gofal iechyd, nid offeryn cymorth gyda phenderfyniadau yw 'GatewayC'. Cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru system 'GatewayC' i ofal sylfaenol yng Nghymru ac mae'n cynnal adolygiad o sut mae'r adnodd yn cael ei roi ar waith.

Goblygiadau ariannol: dim, wedi'i gynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r cyrff proffesiynol perthnasol a GIG Cymru i:**

- **sicrhau bod cyfleoedd addysg feddygol parhaus yn canolbwyntio'n briodol ar ganser gynaecolegol. Dylai hyn gynnwys cynhadledd/gweminar i**

**ddiweddaru meddygon teulu gyda’r technegau diagnostig a’r canllawiau diweddaraf sy’n canolbwyntio ar ganserau gynaecolegol, i’w cynnal erbyn diwedd mis Mawrth 2024;**

- **sicrhau bod y canllawiau clinigol sy'n amlinellu'r symptomau a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chanserau gynaecolegol yn glir ac yn cael eu gweithredu. Dylai hyn gynnwys archwiliad o atgyfeiriadau gan feddygon teulu a chanlyniadau cleifion yn ymwneud â chanserau gynaecolegol i roi adborth i feddygon teulu i'w helpu i wella eu sgiliau diagnostig;**
- **darparu cymorth gofal eilaidd i feddygon teulu i'w cynorthwyo i asesu ac atgyfeirio cleifion sydd â symptomau canser gynaecolegol posibl. Er enghraifft, atebion telefeddygaeth sy'n caniatáu i feddygon teulu ymgynghori ag arbenigwyr o bell (gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i feddygon teulu mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol).**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae gan bob meddyg teulu yng Nghymru fynediad bwrdd gwaith at 'GatewayC' i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus o ran adnabod symptomau posibl canser, gan gynnwys symptomau canser gynaecolegol. Mae canllawiau cenedlaethol clir a dealladwy ar waith ar gyfer asesiad symptomatig ac asesiad seiliedig ar risg o bobl sy'n ymgyflwyno gyda symptomau posibl o ganser. Mae Gweithrediaeth y GIG eisoes yn olrhain niferoedd a chyfraddau atgyfeirio lle'r amheuir canser ar lefel y prif fath o ganser (h.y. canser gynaecolegol) a sut mae hyn yn amrywio rhwng sefydliadau'r GIG. Mae tua hanner y diagnosau o ganser gynaecolegol y flwyddyn ag sydd yna o feddygon teulu yng Nghymru, fodd bynnag, mae meddygon teulu yn atgyfeirio tua ugain gwaith nifer yr achosion a ddiagnosir am ymchwiliad i symptomau o ganser gynaecolegol. Dim ond 5% yw'r gyfradd trosi ar y llwybr canser gynaecolegol yn gyffredinol, ac mae mor isel ag 1% ar gyfer rhai mathau penodol o gleifion allanol. Mae hyn yn dangos bod Ymarfer Cyffredinol yng Nghymru yn cymryd pryderon menywod am ganser gynaecolegol o ddifrif ac yn cymhwyso trothwyon isel iawn o amheuaeth i atgyfeirio menywod. Hefyd, mae swyddogaeth newydd yn y system ddigidol genedlaethol a ddefnyddir i wneud atgyfeiriadau electronig i ofal eilaidd yn caniatáu i glinigwyr gofal eilaidd roi cyngor neu ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion.

Goblygiadau ariannol: dim.

**Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Rhwydwaith Canser Cymru, gomisiynu adolygiad brys o nifer yr achosion, tueddiadau a phoblogaethau risg uchel mewn perthynas â chyflwyniadau brys gyda chanser gynaecolegol, wedi’i ddadansoddi yn ôl pob canser gynaecolegol. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys mynediad at ofal sylfaenol, adnabod symptomau ymhlith meddygon teulu, camddiagnosis a phrosesau cyfathrebu ac atgyfeirio. Dylid rhannu'r canfyddiadau gyda'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Ymateb: Gwrthod

Rydym yn ymwybodol bod ymgyflwyno brys â chanser yn aml yn arwain at ganlyniadau israddol i gleifion. Mae deall achos y rhain a cheisio eu datrys, yn rhan o waith rhwydwaith canser Gweithrediaeth y GIG. Mae Gweithrediaeth y GIG, sy'n gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, wedi ychwanegu ffynhonnell ddata lle'r amheuir canser, fel y gall y rhwydwaith canser edrych ar dueddiadau ymgyflwyno o ffynonellau megis adrannau brys. Mae hyn hefyd yn debygol o gael sylw yn yr archwiliad arfaethedig o ganser yr ofarïau. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau i gynnal adolygiad ffurfiol o'r mater hwn o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani.

Goblygiadau ariannol: dim, rydym yn gwrthod yr argymhelliad.

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir ei hymrwymiad parhaus i flaenoriaethu canser gynaecolegol ac i ddarparu'r sylw a'r adnoddau hanfodol i gael effaith gadarnhaol ar iechyd menywod. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn gofal canser gynaecolegol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gweithrediaeth y GIG i gyhoeddi'n gyson ddata perfformiad allweddol ar gyfer ymyriadau canser (megis amseroedd aros, canlyniadau cleifion, a mynediad at ofal), hyrwyddo tryloywder a chanlyniadau iechyd gwell i fenywod.**

Ymateb: Derbyn

Mae canser yn un o'r chwe blaenoriaeth ddynodedig yn fframwaith cynllunio'r GIG ac mae Gweithrediaeth y GIG yn darparu ymyrraeth adfer amseroedd aros sy'n cynnwys tri math penodol o ganser, gan gynnwys canser gynaecolegol. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogion, a nodwyd mewn uwchgynhadledd ganser genedlaethol ym mis Mawrth 2023, ar gyfer gweithredu'n genedlaethol ar gyfer y tri phrif fath o ganser, a bydd yn cael ei gefnogi gan £2 filiwn o gyllid cenedlaethol bob blwyddyn am dair blynedd. Mae rhwydwaith canser Gweithrediaeth y GIG yn cynnwys grŵp cynghori arbenigol ar gyfer canserau gynaecolegol, sy'n dwyn ynghyd arbenigwyr o bob cwr o Gymru i gydweithio ar wella gwasanaethau. Mae wedi arwain at ddatblygiad llwybrau cenedlaethol ar gyfer tri o'r pum prif is-fath o ganser gynaecolegol. Mae'r rhaglen archwilio clinigol ac adolygu canlyniadau genedlaethol hefyd wedi'i hehangu i gynnwys archwiliad clinigol o ofal canser yr ofarïau, gan adlewyrchu'r angen i gefnogi gwelliant mewn canlyniadau. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar amseroedd aros ar gyfer canser gynaecolegol ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar ganlyniadau ar gyfer canserau gynaecolegol.

Goblygiadau ariannol: dim, mae canser gynaecolegol wedi'i flaenoriaethu'n barod.

**Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru a chyrff proffesiynol perthnasol i:**

- **wella dealltwriaeth o heriau gweithredu cyffuriau newydd a argymhellir gan NICE er mwyn helpu i liniaru rhai o'r rhwystredigaethau a'r camddealltwriaeth sydd ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol;**
- **mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu byrddau iechyd wrth roi cyffuriau newydd a argymhellir gan NICE ar waith, gan nodi cynllun ar gyfer sut y byddant yn sicrhau y bydd digon o gapasiti i ganiatáu i fenywod yng Nghymru, sydd wedi cael diagnosis o ganser gynaecolegol, elwa ar**

**fynediad prydlon at y triniaethau newydd hyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o ba gyffuriau canser newydd ar gyfer trin canser gynaecolegol sy'n debygol o gael eu cymeradwyo yn y tymor byr i'r tymor canolig.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae swyddogion wedi cynnal cymhariaeth o'r meddyginiaethau sydd ar gael ar gyfer canserau gynaecolegol rhwng Cymru a Lloegr sy'n cadarnhau bod yr holl feddyginiaethau a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) ar gael yn deg yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw feddyginiaethau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y Gronfa Cyffuriau Canser (CDF) ers i NICE gymryd cyfrifoldeb am reoli mynediad at y gronfa ym mis Gorffennaf 2016. Er hynny, rydym yn cydnabod bod yna fwy o amrywioldeb wedi bod o bosibl o ran mynediad cyn 2016 a bod defnydd all-drwydded o bevacizumab ddim ond wedi bod ar gael yng Nghymru ers 2019. Yn gyffredinol, mae meddyginiaethau ar gyfer canser gynaecolegol ar gael yng Nghymru o leiaf mor brydlon ag y maent ar gael yn Lloegr. Mae data'r Gronfa Triniaethau Newydd yn awgrymu eu bod ar gael fel mater o drefn o fewn 30 diwrnod i'w hargymell gan NICE. Ategir y farn hon gan y dystiolaeth gan Target Ovarian Cancer.

Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth byddwn yn ysgrifennu at fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i dynnu sylw at yr adnoddau mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) wedi'u cynhyrchu gan ddisgrifio'r llwybrau amrywiol tuag at sicrhau bod meddyginiaethau ar gael yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod angen prawf genetig cyn cychwyn triniaeth gyda llawer o gyffuriau canser newydd, sy'n creu heriau capasiti i fyrddau iechyd, ac mae hyn yn effeithio ar o leiaf un driniaeth newydd ar gyfer canser yr ofarïau. Yn y dyfodol, bydd llawer mwy o feddyginiaethau yn gofyn am brofion genetig ategol cyn cychwyn triniaeth. Mae prif weithredwyr byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn cydweithio i gynllunio'n well ar gyfer cyflwyno'r triniaethau newydd hyn, gan ddefnyddio rhwydweithiau clinigol ac arbenigwyr Gweithrediaeth y GIG i nodi'r goblygiadau ar draws y llwybr o weithredu therapïau cyffuriau newydd sy'n gofyn am brofion genetig a pharatoi samplau. Er mwyn cefnogi'r gwaith cynllunio hwn, mae AWTTC wedi cytuno'n ddiweddar ar broses sganio gorwelion ddiwygiedig ac mae wrthi'n ei threialu. Mae hyn yn adeiladu ar rôl AWTTC fel partner yn Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (ILAP) ar gyfer meddyginiaethau newydd a'r broses y cytunwyd arni gyda Grŵp Oncoleg Genomeg Cymru Gyfan yn 2022.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau presennol a gweithgarwch wedi'i gynllunio.

**Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i'w hatgoffa o'u dyletswydd i sicrhau bod pob claf yn cael ei drin ag urddas a pharch.**

Ymateb: Derbyn

Byddaf yn rhannu adroddiad y Pwyllgor â'r byrddau iechyd ac wrth wneud hynny yn eu hatgoffa yng nghyd-destun y straeon am gleifion rydych wedi'u cofnodi.

Goblygiadau ariannol: dim.

**Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis, gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gweithlu canser gynaecolegol yng Nghymru, nodi lle mae prinder neu sy'n debygol o fod prinder, a chymryd camau i recriwtio i'r swyddi hynny. Dylai adrodd ei chanfyddiadau inni ar ôl cwblhau'r adolygiad.**

Ymateb: Derbyn

Mae diffinio'r gweithlu canser gynaecolegol yn agored i ddehongliad ond dylai gynnwys oncolegwyr, gynaecolegwyr, a nyrsys arbenigol sydd ag arbenigedd mewn canser gynaecolegol. Mae llawer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at y llwybr, yn enwedig histopatholegwyr a radiolegwyr. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi cychwyn prosiect dwy flynedd i adolygu'r gweithlu nyrsio arbenigol canser yng Nghymru gyfan a bydd hyn yn cynnwys nyrsio arbenigol ar gyfer canserau gynaecolegol. Nodwyd bod y gwaith hwn yn flaenoriaeth yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC 2024-25 a bydd yn cynnwys gweithio gyda rhwydwaith canser Gweithrediaeth y GIG a Gofal Canser Macmillan. Mae AaGIC hefyd yn datblygu cynlluniau gweithlu strategol mewn nifer o feysydd fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu (NWIP). Fel rhan o'i raglen waith ehangach ac yn gysylltiedig â'r cylch Cynllunio Addysg a Hyfforddiant blynyddol, mae AaGIC yn adolygu materion yn ymwneud â'r gweithlu ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar yr angen i gynyddu lleoedd addysg a hyfforddiant. Yng ngoleuni'r argymhelliad, bydd AaGIC yn ystyried ffocws penodol ar y gweithlu canser gynaecolegol arbenigol gan gynnwys oncolegwyr, gynaecolegwyr a nyrsys arbenigol canser gynaecolegol fel rhan o'r gwaith hwn.

Goblygiadau ariannol: nid yw'n bosibl mesur hyn ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gynnwys canserau gynaecolegol yn ei gwaith ar fethodoleg cynllunio'r gweithlu.**

Ymateb: Derbyn

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi cynnwys canser gynaecolegol yn ei fethodoleg llwybrau cynllunio'r gweithlu.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau a gynlluniwyd.

**Argymhelliad 21. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddata ar berfformiad canser gynaecolegol y mae'n bwriadu eu cyhoeddi ac erbyn pryd. Mae cyhoeddi'r data rheoli canser hyn yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd, tryloywder, gwneud penderfyniadau gwybodus, ac yn y pen draw, gwella canlyniadau ac ansawdd gofal canser yng Nghymru.**

Ymateb: Derbyn

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyhoeddi 38 o eitemau data ar berfformiad canser, ac mae 16 ohonynt yn cynnwys data penodol ar ganser gynaecolegol. Mae Gweithrediaeth y GIG yn gweithio i wella data rheoli'r GIG, yn benodol i gynnwys is-fathau o ganser ar gyfer llwybrau caeedig. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth ar ba fathau o ganser gynaecolegol a gafodd eu trin o fewn y targed. Mae hyn yn debygol o gael ei ychwanegu at ddangosfwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru pan fydd yn barod yn ddiweddarach eleni. Yn ogystal, mae Gweithrediaeth y GIG yn bwriadu datblygu data ar y llwybr i ddiagnosis ac ar berfformiad diagnostig fel rhan o adnoddau deallusrwydd busnes y bwrdd iechyd. Mae'n bosibl na fydd peth o'r data hyn yn cael ei ddilysu er cywirdeb, felly efallai mai at ddefnydd mewnol y GIG yn unig y defnyddir y data rheoli hyn.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau a gynlluniwyd.

**Argymhelliad 22. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa drosolwg sydd ganddi o'r system gwybodeg canser a sut y bydd yn sicrhau bod y system yn addas at y diben ac y bydd yn sicrhau gwerth am arian. Dylai'r ymateb gynnwys manylion ynghylch sut mae'r system gwybodeg canser yn cefnogi amcan allweddol yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser o ran digideiddio llwybrau canser.**

Ymateb: Derbyn

Cyfeiriwch at fy ymateb i argymhelliad chwech mewn perthynas ag effaith y system ddigidol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwybodeg canser drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol ac felly wedi rheoli'r rhaglen fel rhan o grant. Mae'r Rhaglen wedi bod yn destun adolygiad Gateway a bydd datblygiadau pellach yn amodol ar adolygiad allanol o'r rhaglen. Mae'r broses gyflawni yn cael ei goruchwylio'n uniongyrchol gan Fwrdd y Rhaglen Gwybodeg Canser a'i Uwch Swyddog Cyfrifol.

Goblygiadau ariannol: Mae'r achos buddsoddi digidol sydd dan ystyriaeth, sy'n cynnwys adolygiad allanol, wedi ei gostio i fod yn £2.6 miliwn yn ystod 2024-25.

**Argymhelliad 23**
Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau, ynghyd â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, a chyngor gan Gynghrair Canser Cymru, i ddatblygu amgylchedd ymchwil meddygol Cymru fel y gall gystadlu â rhannau eraill o'r DU am gyllid ymchwil. Dylai hyn gynnwys ystyried a ellid sefydlu canolfan ragoriaeth ymchwil yn benodol ar gyfer gwaith ymchwil i ganser gynaecolegol. Nodwn y bydd hyn yn gofyn am yr ewyllys wleidyddol ac ailgyfeirio rhywfaint o gyllid ymchwil.

Ymateb: Derbyn

Mae'n hanfodol bod gan Gymru amgylchedd ymchwil canser cryf a all gyfrannu ymchwil o ansawdd uchel i fynd i'r afael â'r ymdrech fyd-eang hon. Dros y blynyddoedd, canser yw'r maes sydd wedi derbyn y buddsoddiad ymchwil iechyd mwyaf gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid sylweddol gan y llywodraeth, er enghraifft, wedi datblygu seilwaith ymchwil canser allweddol fel Canolfan Ymchwil Canser

Cymru, Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (yn cynnwys gofal heb ei drefnu) (PRIME), a’r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR).

Cydnabyddir pwysigrwydd hanfodol a chyd-fanteision gweithio mewn partneriaeth ym maes ymchwil canser, a dyna pam mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ceisio cydweithio'n eang mewn cynlluniau a phartneriaethau trawsgyllidol sy'n agor cyfleoedd cyllido ar gyfer ymchwil i Gymru ar raddfa na allwn ei gynnig o fewn ein cyllidebau ein hunain. Er enghraifft, rydym yn cyd-ariannu Canolfan Meddygaeth Canser Arbrofol Caerdydd (ECMC) gydag Ymchwil Canser y DU (CRUK) ac adrannau ymchwil a datblygu iechyd a gofal eraill llywodraeth y DU sy'n galluogi cleifion i gael treialon clinigol cam cynnar a throsi darganfyddiadau gwyddonol yn driniaethau canser newydd.

Mae Gweinidogion wedi rhoi cyfarwyddiadau clir i swyddogion ar yr angen i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ymchwil ar faterion iechyd menywod dros y blynyddoedd nesaf ac mae swyddogion wrthi’n gweithio ar gynigion ynghylch y ffordd orau o wneud hyn.

Gyda chefnogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae ymchwil Cymru a'r gymuned rhanddeiliaid ehangach wedi cydweithio i ddatblygu Strategaeth Ymchwil Canser Cymru sy'n gosod y trywydd ar gyfer ymchwil canser yng Nghymru a fydd, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â baich sylweddol canser i boblogaeth Cymru. Wedi'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022, mae’r strategaeth hon yn darparu platfform strategol ar gyfer cydlynu ymchwil canser yng Nghymru, gan nodi chwe thema ymchwil â blaenoriaeth lle mae hanes cryf o ragoriaeth ymchwil a chyfle yn y dyfodol (Oncoleg fanwl a mecanistig; Iwmiwno-oncoleg; Radiotherapi; Treialon clinigol canser; Oncoleg liniarol a chefnogol; Ymchwil atal canser seiliedig ar y boblogaeth, diagnosis cynnar, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd).

Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru (WCRC) yn darparu trosolwg a chydgysylltu strategol ar gyfer gweithredu Strategaeth Ymchwil Canser Cymru ac rwyf wedi darparu hyd at £1m o gyllid ychwanegol i gefnogi'r Ganolfan gyda'r gwaith hwn hyd at 2025. Mae gweithgarwch ymchwil i ganser gynaecolegol eisoes yn digwydd yng Nghymru ar draws nifer o themâu Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (e.e. Efrydiaeth PhD Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n ymchwilio i werth ail-bwrpasu cyffuriau i drin canser yr ofarïau cronig sy'n gwrthsefyll therapi; prosiect SMART Expertise wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a byd diwydiant i ddatblygu grŵp o gyffuriau epigenetig newydd a chyffuriau gwrthgyrff cyfun (ADCs) i fynd i'r afael â chanser yr ofarïau).

Byddwn yn ystyried y cyfleoedd i ymchwilwyr o Gymru adeiladu ar y cryfderau hyn i gynhyrchu adnoddau a seilwaith ychwanegol ar ganserau gynaecolegol, yn ogystal â’r potensial i ganolbwyntio ar waith sy’n dod i’r amlwg i ddod â’r GIG, diwydiant a’r trydydd sector ynghyd i gydweithio ar arloesedd canser.

Goblygiadau ariannol: dim, o fewn yr adnoddau a gynlluniwyd.

**Argymhelliad 24. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:**

- **faint o dreialon clinigol sydd ar agor ar hyn o bryd i fenywod sydd â chanser gynaecolegol yng Nghymru;**
- **sut y byddant yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i wrthdroi'r dirywiad mewn treialon clinigol sydd ar agor i fenywod â chanser gynaecolegol;** a
- **sut y gellir talu clinigwyr yn well am y gwaith hwn**

Ymateb: Derbyn

Mae 13 o astudiaethau canser gynaecolegol ar waith ar draws gwahanol safleoedd y GIG ar hyn o bryd gan gynnwys yn y Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Mae dwy yn astudiaethau masnachol ac mae 11 yn rhai anfasnachol. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn gweithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar gynyddu astudiaethau ar draws pob maes o'r clefyd ac mae Strategaeth Ymchwil Canser Cymru yn rhoi ffocws ar gynyddu treialon canser. Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw sicrhau bod gan sefydliadau'r GIG ddiwylliant ymchwil cryf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Ymchwil a Datblygu newydd i wreiddio ac integreiddio ymchwil yn well i bob agwedd ar wasanaethau iechyd a gofal yn GIG Cymru. Mae'n cael ei gyhoeddi ar ffurf canllawiau cenedlaethol cyson i holl sefydliadau'r GIG ac fe'i defnyddir ar gyfer monitro perfformiad.

Mae'r Fframwaith yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys sicrhau bod cynlluniau'r gweithlu yn eu lle i sicrhau bod gan staff y GIG y cyfle i gefnogi ymchwil, trwy gynnwys ymchwil ym mhob un o swydd-ddisgrifiadau'r GIG a sicrhau amser wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil i staff y GIG drwy gynllunio swyddi ac Adolygiadau Perfformiad a Datblygu. Hefyd, mae disgwyl i sefydliadau'r GIG wella capasiti cyflawni gwaith ymchwil ymhlith y gweithlu, gan gynnwys y gallu i gefnogi treialon clinigol, sicrhau llywodraethu clinigol da ac arferion gorau. Yn ogystal, dylai sefydliadau'r GIG gynhyrchu incwm ar gyfer ymchwil ar gyfer astudiaethau anfasnachol (h.y. gan gyllidwyr ymchwil, cynghorau ymchwil a sefydliadau'r trydydd sector) ac astudiaethau masnachol (h.y. gan bartneriaid diwydiant) er mwyn hwyluso a helpu i feithrin capasiti. Ceir manteision penodol o gynnal astudiaethau masnachol lle gellir defnyddio elfen o'r incwm a ddarperir i sefydliad y GIG i gefnogi'r cyfryw glinigwyr sy'n cynnal yr astudiaethau ac i feithrin capasiti yn eu hadrannau.

Goblygiadau ariannol: dim, gydag adnoddau wedi'u cynllunio

**Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod manteision gofal lliniarol yn cael eu hyrwyddo i gleifion, meddygon teulu a chlinigwyr mewn ysbytai acíwt er mwyn mynd i'r afael â'r camsyniad mai dim ond ar gyfer diwedd oes y mae gofal lliniarol.**

Ymateb: Derbyn

Mae Bwrdd Rhaglen Genedlaethol Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Gweithrediaeth y GIG yn gyfrifol am sbarduno newid a goruchwylio ymdrechion byrddau iechyd i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal diwedd oes yma yng Nghymru. Bydd yr argymhelliad hwn i hyrwyddo manteision gofal lliniarol i'r holl randdeiliaid yn cael sylw yn rhaglen waith y Bwrdd a grwpiau cynghori. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Gofal Lliniarol Arbenigol Pediatrig, Gofal Lliniarol Arbenigol

i Oedolion, Polisi a'r Trydydd Sector, Plant a Phobl Ifanc, yn ogystal â grwpiau Cynghori Proffesiynol.

Goblygiadau ariannol: dim, wedi'i gynnwys o fewn adnoddau presennol.

**Argymhelliad 26: Yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae wedi’i wneud o ran gweithredu’r datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes, ac yn benodol sut y mae’n sicrhau bod mynediad at ofal lliniarol yn cael ei ategu gan degwch.**

Ymateb: Derbyn

Ers cyhoeddi’r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes ym mis Hydref 2022, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Genedlaethol Gofal Lliniarol a Diwedd Oes Gweithrediaeth y GIG ac mae'n gweithio i gynghori ar ei weithrediad. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cyflawni dau gam o'r Adolygiad o Gyllido Gofal Diwedd Oes, gan ddarparu argymhellion sy'n cyd-fynd â nodau'r Datganiad Ansawdd. Prif ffocws tîm y Bwrdd Rhaglen dros y 12 mis diwethaf oedd trydydd cam a cham olaf yr adolygiad o gyllido gofal lliniarol a diwedd oes, ac mae disgwyl i’r argymhellion interim fod yn barod erbyn diwedd mis Ionawr 2024. Bydd yr argymhellion hyn hefyd yn cyd-fynd â chamau gweithredu'r Datganiad Ansawdd.

Mae holl ffrydiau gwaith y rhaglen yn seiliedig ar degwch ac amrywiaeth ac mae’r Bwrdd Rhaglen, trwy Weithrediaeth y GIG, yn helpu i ddarparu adnoddau i ddarparwyr gofal lliniarol a gofal diwedd oes er mwyn sicrhau bod gofal seiliedig ar werth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gael i bawb sydd ei angen. Mae tîm y rhaglen wedi ymrwymo i ddatblygu mesurau gweithredol i nodi a lleihau'r achosion o anghydraddoldebau gan gynnwys diagnosis, iechyd meddwl, dementia, oedran, daearyddiaeth, ethnigrwydd, hunaniaeth rywiol a rhywedd, a thlodi. Mae gwaith pob is-grŵp o'r Bwrdd Rhaglen hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni agweddau gwahanol ar y Datganiad Ansawdd.

Goblygiadau ariannol: dim, wedi'i gynnwys o fewn adnoddau'r rhaglen.